
Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council

# Magic Notes




## Beth yw 'Magic Notes'?

System ddiogel ac arloesol yw Magic Notes sy'n trawsgrifio cyfarfodydd yn gywir a chofnodi manylion eich sgyrsiau.

Mae Magic Notes yn helpu i gadw cofnodion yn glir a chyson wrth barchu cyfrinachedd a hawliau pawb.

Mae'n bosibl y bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn gofyn am gael recordio eich sgwrs gan ddefnyddio Magic Notes.

Sylwch - caiff unrhyw drawsgrifiadau / adroddiadau a gaiff eu creu gan Magic Notes eu hadolygu gan eich Gweithiwr Cymdeithasol bob amser er mwyn sicrhau cywirdeb.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

### Nodiadau Cywir

Cofnod dibynadwy o bob rhan o'ch sgwrs.

### Data Diogel

Caiff nodiadau eu rhoi ar eich ffeil yn y ffordd ddiogel arferol.

### Gwell Cyswllt

Yn hytrach na chymryd nodiadau, bydd y canolbwynt ar y sgwrs.

## Pwysig - Eich Hawliau a Mesurau Diogelu

**Cadw Data:**
Dim ond am tua 8 wythnos fydd gan eich Gweithiwr Cymdeithasol fynediad at y recordiad ar Magic Notes. Mae hyn yn rhoi digon o amser iddynt ei roi ar eich ffeil yna caiff ei ddileu'n barhaol. Dim ond i helpu â'u gwaith gweinyddol a chadw cofnodion y caiff ei ddefnyddio.

**Hawl i Optio Allan:**
Meddyliwch am Magic Notes fel rhywun proffesiynol sy'n ymuno â'r cyfarfod i gymryd cofnodion. Chi sy'n rheoli ac nid oes rheidrwydd arnom i ddefnyddio Magic Notes. Gallwch ddewis iddo beidio â chael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg - hyd yn oed hanner ffordd trwy recordiad.

**Diogelwch Data:**
Mae gennym bolisïau diogelu data llym. Rydym wedi asesu Magic Notes a'i gymeradwyo oherwydd ei fod yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ni chaiff eich data ei ddefnyddio i hyfforddi unrhyw fodelau Deallusrwydd Artiffisial (AI), a bydd yr holl wybodaeth yn aros yn breifat a chyfrinachol.

Gellir dod o hyd i'n Hysbysiad Preifatrwydd ar: **Hysbysiad Preifatrwydd CBSC - Cynllun Peilot Magic Notes**

***This document is also available in English.***



Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council